## Hyfforddai yn yr Adran Gelf

Gyda chefnogaeth Ffilm Cymru Wales, mae cynhyrchiad cyffrous 'Madfabulous', sydd wedi'i leoli ym Môn/Bangor a'r cyffiniau, am recriwtio hyfforddai ar gyfer yr Adran Gelf.

Bydd *Madfabulous* yn olrhain stori wir pumed Marcwis Ynys Môn a oedd, ar ddiwedd y 19eg ganrif, wedi cefnu ar brotocolau cymdeithasol dosbarth a rhyw yn sgil ei ymadroddion theatrig a'i fywyd cymdeithasol moethus, gan wario ffortiwn gwerth miliynau o bunnoedd cyn ei farwolaeth annhymig yn 29 oed.

Mae'r cynhyrchiad yn chwilio am hyfforddeion brwdfrydig, sy'n barod i ddysgu. Nid oes angen profiad o fod wedi gweithio yn yr adran hon ond byddai'n ddymunol petaech yn medru dangos eich bod yn meddu ar y set sgiliau ehangach.

Rydym yn chwilio am rhywun sydd yn/sydd â:

- Diddordeb ac awydd i ddysgu'r crefftau sy'n rhan o'r Adran Gelf.
- Brwdfrydedd a diddordebau creadigol.
- Drefnus ac yn brydlon.
- Hoffi gweithio'n fanwl.
- Ddyfeisgar.

## Anghenion

- Rhaid i'r ymgeiswyr fod yn Gymry neu wedi eu lleoli yng Nghymru er mwyn cael eu hystyried ar gyfer y rôl hon
- Mae'r gallu i yrru yn ddymunol.
- Wedi eich lleoli yng Ngogledd Cymru.

## Lleoliad, Hyd & Dyddiadau:

- 6 wythnos yw hyd y rôl hon.
- Ffilmio’n dechrau ar 12fed Awst 2024.
- Bydd y cynhyrchiad wedi ei leoli ym Mangor ac yn ffilmio ar Ynys Môn, ym Mangor a’r ardaloedd cyfagos.
- Dylai pob ymgeisydd fod yn byw, neu’n medru ad-leoli i’r ardal hon, neu'n agos ati dros y cyfnod hwn, gan nad oes llety yn cael ei ddarparu.

## Graddfa

Telir Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer y rôl hon.

## Hygyrchedd

Dylai ffilm fod ar gyfer pawb. Mae’r cynhyrchiad yma a Ffilm Cymru Wales ill dau wedi ymrwymo i gefnogi diwydiant mwy cynaliadwy, gydag amrywiaeth Cymru a’i holl chymunedau’n cael eu hadlewyrchu yng nghast a chriw’r cynyrchiadau. Hoffem ei gwneud yn glir ein bod yn annog ymgeiswyr o bob cefndir.

## Ceisiadau

I wneud cais gyrrwch eich CV a chlip fideo byr yn egluro pam yr ydych yn ystyried eich bod yn gymwys ar gyfer y rôl:
footinthedoor@ffilmcymruwales.com

Defnyddiwch y canlynol ar gyfer y Pwnc yr E-bost: ENW, RÔL
(Email Subject: NAME, ROLE)

**Y Dyddiad Cau Ar Gyfer Gyrru Cais: 5yh, dydd Gwener 12fed Gorffennaf.**

Cynhelir y cyfweliadau yn ystod yr wythnos sy’n dechrau ar 22ain Gorffennaf.